Office for Product Safety & Standards



# Batris botwm Byddwch ofalus!

**Rydyn ni'n dibynnu ar fatris botwm i bweru pethau bob dydd fel ffobiau allweddi car, rheolyddion a theganau plant. Ond oeddech chi'n gwybod, os cân nhw eu llyncu, maen nhw'n gallu anafu'n wael, neu hyd yn oed ladd plentyn?**

**Bydd y cyngor yma'n eich helpu i gadw'ch plentyn yn ddiogel.**

# Peryglon batris botwm

Mae batris botwm yn adweithio â phoer i greu soda costig – y cemegyn sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i agor draeniau. Os bydd plentyn yn llyncu batri botwm a bod hwnnw'n mynd yn sownd yn ei bibell fwyd (oesoffagws), gall losgi twll a chreu gwaedu mewnol, neu hyd yn oed achosi marwolaeth.

**Batris lithiwm mwy o faint 'batris ceiniog' (tua maint darn pum ceiniog) yw'r rhai mwyaf peryglus,** ond mae'n well cadw pob batri botwm allan o gyrraedd plentyn. Gall y batris lleiaf gael eu gosod mewn mannau fel y clustiau a'r trwyn, gan achosi anafiadau difrifol os na chân nhw eu gweld.







## Sut i gadw plant yn ddiogel

**Storiwch batris sbâr yn ddiogel**
Storiwch fatris botwm sbâr yn ddiogel ac allan o gyrraedd plant. Peidiwch â'u gadael yn rhydd mewn droriau neu ar ben arwynebau. Gwyliwch wrth agor pecynnau o fatris botwm rhag ofn iddyn nhw gwympo ar y llawr.



**Mynnwch wybod pa deganau a theclynnau sy'n defnyddio batris botwm**
Mae'r rhain yn cynnwys teganau a theclynnau bob dydd, fel: tafolau cegin neu ystafell ymolchi, thermomedrau, clustffonau i chwarae gemau, rheolyddion o bell, ffobiau allweddi ceir, teclynnau ffeindio allweddi, goleuadau nos heb fflam, nwyddau bach gwirion fel hudlathau neu fandiau gwallt sy'n fflachio, teganau bygiau robot neu bysgod, bys-droellwyr â goleuadau LED, cyfrifianellau, watshis a chymhorthion clyw.

O dan y rheoliadau ar ddiogelwch cynhyrchion, mae'n ofynnol bod y lle i fatris botwm mewn teganau yn gallu cael ei gloi.




## Gwiriwch eich cartref

Os gwelwch chi bethau sy’n cael eu pweru gan fatris botwm lle nad yw’r lle i’r batri wedi’i gloi, symudwch nhw allan o gyrraedd plant bach. Os yw’r eitem yn ddiffygiol, trwsiwch hi neu ei gwaredu’n ddiogel. Gallwch hefyd roi gwybod am deganau diffygiol i’ch adran Safonau Masnach leol.



## Dysgwch blant hŷn am y peryglon

Dywedwch wrth blant hŷn pam mae batris botwm yn beryglus, a pham na ddylen nhw chwarae â nhw na’u rhoi nhw i blant bach.



## Gwaredwch fatris botwm ‘marw’ ar unwaith

Mae plant yn aml yn ffeindio batris botwm wedi’u taflu ar hyd y lle neu o dan glustogau soffa. Gall batris botwm ‘marw’ fod â digon o bŵer o hyd i frifo plentyn bach yn wael. Pan dynnwch chi fatri, storiwch e’n ddiogel a’i ailgylchu’n iawn ac yn brydlon.





# Os ydych chi'n amau bod eich plentyn wedi llyncu batri botwm

Efallai na fydd y symptomau'n amlwg. Gallai'ch plentyn fod yn pesychu, yn tagu neu'n glafoerio, neu'n pwyntio at ei wddf neu ei fol. Mae symptomau aneglur neu gyfnewidiol yn golygu ei bod yn bwysig bod yn wyliadwrus.

**Os ydych chi'n meddwl bod eich plentyn wedi llyncu batri, ewch â'r plentyn yn syth i'r adran damweiniau ac achosion brys agosaf neu ffoniwch 999 am ambiwlans.**

**Cofiwch:**

- ewch â phecyn y batri, y tegan neu'r teclyn – os gallwch chi – i helpu'r staff i adnabod y batri
- dilynwch eich greddf a gweithredu'n gyflym, hyd yn oed os nad oes symptomau

**Peidiwch:**

- â gadael i'ch plentyn fwyta neu yfed
- â gwneud i'ch plentyn gyfogi




**2021**